

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 12 Chwefror 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

Pwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

C14 David Lloyd: A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar hynt y comisiwn annibynnol ar bwerau a threfniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (OAQ15599)

Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan): Bwriadaf roi datganiad yn ymwneud â'r comisiwn a'i waith tuag adeg y Pasg.

Dyfodol y Gwasanaeth Post yng Nghymru

C15 Owen John Thomas: Pa drafodaethau a gafodd Prif Weinidog Cymru gyda Consignia ynghylch ei gynlluniau ar gyfer dyfodol y gwasanaeth post yng Nghymru? (OAQ15590)

Prif Weinidog Cymru: Cyfarfûm â Graham Cater, cadeirydd bwrdd Consignia sy'n ymgynghori ar Gymru ar 3 Mai 2001. Buom yn trafod rhwydwaith y swyddfeydd post gwledig, y banc cyffredinol a mentrau eraill y swyddfa bost. Hefyd fe gyfarfûm â rheolwyr y brif swyddfa bost yn Heol Penarth, Caerdydd, yn ystod fy ymweliad ar 25 Ionawr ynglŷn â newidiadau yn y ffordd y dosberthir post.